TIR NATUR

# Polisi Preifatrwydd Tir Natur

Mae ein polisi preifatrwydd yn esbonio sut yr ydym yn defnyddio data personol a gasglwn. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau preifatrwydd ein cefnogwyr a'r rhai sy'n ymweld â'n gwefan.

## Pa ddata yr ydym yn eu casglu?

Mae Tir Natur yn casglu'r data canlynol:

- Manylion cyswllt personol, megis enw, teitl, cyfeiriadau, rhifau ffôn, a chyfeiriadau e-bost personol neu e-bost busnes os ydych chi'n gweithio i sefydliad.

## Sut yr ydym yn casglu eich data?

Byddwch chi'n darparu'r rhan fwyaf o'r data y mae Tir Natur yn eu casglu yn uniongyrchol i ni. Rydym ni'n casglu data ac yn eu prosesu pan fyddwch yn gwneud y canlynol:

- Defnyddio'r dudalen Cysylltu â ni ar wefan Tir Natur
- Cofrestru ar gyfer newyddlen Tir Natur
- Rhoi rhodd i Tir Natur trwy ein gwefan neu drwy Crowdfunder
- Defnyddio neu edrych ar ein gwefan trwy gwcis eich porwr
- Cydsynio i gael llun neu fideo wedi'i dynnu trwy lenwi ein ffurflen gydsynio ar gyfer ffotograffiaeth/fideo.

## Casglu gwybodaeth gan gefnogwyr

Os byddwch yn rhoi rhodd i ni, byddwn yn defnyddio eich data i brosesu a chydnabod eich cyfraniad, a gallwn ymgymryd â gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy mewn rhai achosion.

## Sut y byddwn yn defnyddio eich data?

Bydd gwybodaeth bersonol a ddarperir i ni yn cael ei defnyddio i'r dibenion a amlinellir adeg casglu neu gofrestru, yn unol â'r dewisiadau a nodir gennych.

TIR NATUR

## Newyddlen Tir Natur

Dim ond ar ôl i chi gofrestru ar gyfer ein newyddlen trwy ein gwefan neu drwy ddod yn Aelod Sylfaenol o'r Gymuned y byddwn ni'n anfon newyddlen i'ch cyfeiriad e-bost.

Mae gennych yr hawl ar unrhyw adeg i stopio Tir Natur rhag anfon newyddlenni atoch. Os nad ydych chi am i ni gysylltu â chi mwyach trwy anfon cylchlythyr, gallwch glicio ar y botwm datdanysgrifio ar ddiwedd cylchlythyr Tir Natur, neu gysylltu â ni yn team@tirnatur.cymru

## Sut yr ydym yn storio eich data?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y cafodd ei chasglu ar eu cyfer neu fel sy'n ofynnol gan y gyfraith.

## Beth yw eich hawliau diogelu data?

Hoffai Tir Natur sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o'ch holl hawliau diogelu data. Mae gan bob defnyddiwr hawl i'r canlynol:

**Yr hawl i gael mynediad** – Mae gennych yr hawl i ofyn i Tir Natur am gopïau o'ch data personol.

**Yr hawl i unioni** – Mae gennych yr hawl i ofyn i Tir Natur gywiro unrhyw wybodaeth sy'n anghywir yn eich barn chi. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i Tir Natur gwblhau'r wybodaeth sy'n anghyflawn yn eich barn chi.

**Yr hawl i ddileu** – Mae gennych yr hawl, o dan amodau penodol, i ofyn i Tir Natur ddileu eich data personol.

**Yr hawl i gyfyngu ar brosesu** – Mae gennych yr hawl, o dan amodau penodol, i ofyn i Tir Natur gyfyngu ar y gwaith o brosesu eich data personol.

**Yr hawl i wrthwynebu prosesu** – Mae gennych yr hawl, o dan amodau penodol, i wrthod i Tir Natur brosesu eich data personol.

TIR NATUR

**Yr hawl i symudedd data** – Mae gennych yr hawl, o dan amodau penodol, i ofyn i Tir Natur drosglwyddo'r data yr ydym wedi'u casglu i sefydliad arall, neu'n uniongyrchol i chi.

Os byddwch yn gwneud cais, bydd yn rhaid i ni ymateb cyn pen mis. Os hoffech arfer unrhyw rai o'r hawliau hyn, cysylltwch â ni trwy e-bost: team@tirnatur.cymru

## Cwcis

Ffeiliau testun sy'n cael eu gosod ar eich cyfrifiadur i gasglu gwybodaeth gofnodi safonol ar y Rhyngrwyd neu wybodaeth am ymddygiad ymwelwyr yw cwcis. Pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan, efallai y byddwn yn casglu gwybodaeth yn awtomatig trwy gwcis neu dechnoleg debyg. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i allaboutcookies.org.

## Pa fath o gwcis yr ydym yn eu defnyddio?

Mae yna sawl math gwahanol o gwcis; fodd bynnag, mae ein gwefan yn defnyddio:

- Swyddogaethau – mae Tir Natur yn defnyddio'r cwcis hyn er mwyn eich adnabod ar ein gwefan a chofio'r dewisiadau a wnaethoch yn flaenorol. Gallai'r rhain gynnwys eich dewis iaith a'ch lleoliad. Defnyddir cyfuniad o gwcis parti cyntaf a thrydydd parti.

## Rheoli cwcis

Gallwch osod eich porwr i beidio â derbyn cwcis, ac mae'r wefan uchod yn dweud wrthych sut i gael gwared ar gwcis o'ch porwr. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai na fydd rhai o nodweddion ein gwefan yn gweithio o ganlyniad.

## Polisïau preifatrwydd gwefannau eraill

Gall gwefan Tir Natur gynnwys dolenni i wefannau eraill. Dim ond i'n gwefan ni y mae ein polisi preifatrwydd yn berthnasol, felly os byddwch yn clicio ar ddolen i wefan arall, dylech ddarllen ei pholisi preifatrwydd.

## Newidiadau i'r polisi preifatrwydd

TIR NATUR

Mae ein Cwmni yn adolygu ei bolisi preifatrwydd yn rheolaidd ac yn rhoi unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon. Diweddarwyd y polisi preifatrwydd hwn ddiwethaf ym mis **Ebrill 2026.**

## Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch polisi preifatrwydd Tir Natur a'r data sydd gennym amdanoch, neu os hoffech arfer un o'ch hawliau diogelu data, mae croeso i chi gysylltu â ni yn: team@tirnatur.cymru

## Cysylltu â'r awdurdod priodol

Os hoffech wneud cwyn neu os ydych yn teimlo nad yw Tir Natur wedi ymdrin â'ch pryder mewn modd boddhaol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.